

Dadansoddi Nythod

gan Ted Breeze Jones



Dyma ddarn arall o waith dihafal Ted Breeze Jones, wedi ei addasu rhyw fymryn at ofynion heddiw, ond heb golli naws a chyffro'r gwreiddiol.

Dadansoddi – dyna lond ceg o air! Peidiwch â dychryn – mae'n ddigon syml a'i ystyr yw tynnu **hen**** nythod yn ddarnau er mwyn darganfod beth mae'r adar yn ei ddefnyddio i wneud eu nythod.

***Sylwch yn arbennig ar y gair **hen**. Ymarfer ar gyfer diwedd haf neu ddechrau hydref yw hwn; rhaid sicrhau fod pob teulu wedi hen adael y nyth cyn ei gyffwrdd. Fodd bynnag cewch well hwyl arni cyn i stormydd ddarnio'r nythod, sydd yn awgrymu mai rhwng Awst a chanol Hydref fyddai'r cyfnod gorau.*

Erbyn canol Awst fe fydd y mwyafrif o'r adar wedi gorffen nythu, a'u cywion wedi gadael eu cartrefi am byth i ennill eu tamaid. Gwaith difyr yw cychwyn ar daith efo sach neu fasedd i gasglu hen nythod a'u cludo adre i'w hastudio. Trwy ddadansoddi nyth yn ofalus cewch ddarganfod beth gafodd ei ddefnyddio i'w adeiladu – gwair? plu? mwsogl? llaid caled?

Ar ddalen o bapur cryf neu gardbord, gludwch enghreifftiau o'r deunyddiau, labelwch hwy a nodwch enw'r aderyn oedd piau'r nyth os ydych chi'n gwybod pa fath oedd o. I orffen y dasg yn daclus copi'wch lun yr aderyn o lyfr adar a'i liwio'n ofalus. Gall dosbarth ysgol ddadansoddi amrywiaeth o nythod, a chreu arddangosfa ar y mur.



Sgwn i pwy fuodd yn byw yn hwn?

Cafodd un o'r plant yn fy nosbarth yn yr ysgol hen nyth titw cynffon-hir/ titw hirgwt (*long-tailed tit*) ac fe aethon ni ati i'w ddadansoddi. Credaf fod y nyth hwn yn un o'r rhai taclusaf a geir yng Nghymru gyfan. Mae'n grwn fel pêl, a thwll bychan yn ddrws iddo. Fe gawson ni fod y cen coed (*lichen*) a'r mwsogl a gasglodd y titw wedi eu rhwymo yn ei gilydd efo gwe pry cop. Y tu mewn i'r nyth fe gawson ni domen o blu a methai'r disgyblion â deall sut y llwyddodd yr aderyn i'w pacio mor glos ynddo. Fe aethon ni ati i gyfri'r plu a phan ganodd y gloch ginio, roedd gennyn ni 769 o blu mân mân, a mwy ar ôl heb eu cyfrif! Cafodd un adarydd dros 5,000 o blu mewn nyth titw cynffon-hir, a chefais innau 276 mewn nyth dryw bach (*wren*) un tro.

Defnyddia ambell aderyn daclau rhyfedd i adeiladu nyth. Mi welais i fy hun

baced sigarets yn sylfaen i nyth asgell arian/ji-binc (*chaffinch*) a nyth bronfraith (*song thrush*) oedd wedi casglu conffeti lliwgar o lwybr yr eglwys ar ôl priodas. Coeliwch fi, roedd ei nyth yn amlwg o gryn bellter i ffwrdd!

Nyth **cigfran** (raven) ar ben wal buarth yng nghanol y Migneint

Fel arfer ar glogwyn creigiog y bydd y gigfran yn nythu ond mae'n rhaid mai tipyn o brentis oedd hon. Fagodd hi ddim cywion y tro hwn – gobeithio ei bod wedi gwneud yn well y flwyddyn ganlynol.



Gweddillion pryd bwyd? Arferiad glas y dorlan (*kingfisher*) yw dodwy ei wyau ar domen o esgyrn y pysgod sy'n ymborth iddo, ac un tro mi welais i nyth brân dyddyn (*carrion crow*) efo esgyrn defaid yn gymysg â'r brigau.

Nid fod pob aderyn yn poeni llawer am adeiladu nyth o gwbl, boed yn gywrain neu'n flêr. Dydy'r cwtiad torchog (*ringed plover*) ddim yn gwneud dim mwy na dodwy ei bedwar wŷ mewn pant yn y graean ar lan y môr. Weithiau cluda ychydig gerrig a chregyn i'w gosod o'i gwmpas, ac ar un o draethau Môn cefais nyth cwtiad torchog oedd wedi cario darnau o wydr gwyrdd i addurno'r pant. Gwnâi'r cyfan ddarlun tlws iawn, yr wyau gwynion â'u smotiau duon a'r darnau gwydr o'u cwmpas yn sgleinio yng ngolau'r haul, ond a oedd yn syniad da? Yn lle cadw'r nyth yn ddiogel o olwg ysglyfaethwyr, roedd yr addurn yn tynnu sylw ato.

Fe geir digonedd o grefftwyr hefyd ymhlith yr adar. Y saer coed yw cnocell y coed (*woodpecker*) sy'n tyllu ei gartref ym moncyff coeden. Pentwr o ddarnau bychain o bren ar waelod y twll ydy defnydd y nyth ei hun. Y plastrwr ydy delor y cnau (*nuthatch*) sy'n aml yn cymryd drosodd hen dwll cnocell. Fel rheol, mae'r twll yn rhy fawr i aderyn cymaint llai ac fe welwch chi'r delor yn casglu mwd a phlastro'n ddiwyd i leihau'r drws. Y chwarelwr neu'r mwynwr ydy glas y dorlan sy'n tyllu ei dwll i mewn i'r dorlan ar lan yr afon.

Dyma chwarelwr bach arall – y **pâl**

Cloddio twnel a thwll uwchben clogwyni môr y bydd yr aderyn annwyl hwn ac adeiladu'r nyth yno.

Mae hyn yn ei roi mewn perygl o gollir wyau a'r cywion i greaduriaid fel llygod mawr. Bu bron i Ynys Seiriol gollir ei hadar pâl i gyd ac oni bai i'r wardeniaid gael gwared o'r pla blewog, nid "Puffin Island" fyddai hi wedi bod byth mwy!



Adar pêl (puffins) yn ymyl eu "pentref"

Dyma ffordd hawdd o ddysgu ychydig mwy am arferion nythu yr adar yn gynnar yn y gwanwyn. Tua chanol mis Mawrth mi fydda i'n gosod blwch pren ar bolyn yn yr ardd (o fewn cyrraedd adar ond allan o gyrraedd pws!) a thros ei wyneb ddarn o rwyd weiar.



Mi fydda i wedyn yn llenwi'r blwch â gwlan, mwsogl, darnau bach o edau a llinyn a phlu. Fydd yr adar ddim yn hir cyn darganfod y trysor hwn, ac fe ddôn nhw yno i gasglu deunydd nythu trwy wthio'u pigau drwy'r tyllau a chipio pluen neu wlan neu beth bynnag arall sy'n cymryd eu ffansi fel leinin i'w nyth newydd. Cewch dystiolaeth pa aderyn sy'n dewis beth o'r jymbl sêl!

Jymbl sêl yr adar

Mi gredaf i fod yma ddigon o bethau i chi eu gwneud ond mi hoffwn ddiweddu efo gair o rybudd eto: **byddwch yn ofalus a gwnewch yn hollol siwr mai HEN nythod yn unig y byddwch yn eu tynnu o'r gwrychoedd a'r llwyni.**